



me and my
movie
pecyn creu ffilm



enw

helo 'na

Croeso i **CBBC me and my movie**. Mae'r pecyn yma'n llawn tips i dy helpu di ddechrau ar dy daith o wneud ffilm.

Er mwyn dy ysbrydoli di, fe fyddwn yn dangos i ti sut mae gwneud 3 math o ffilm:

- drama
- dogfen
- animeiddiad

Ar ôl i ti wneud dy ffilm fer (dim hirach na 2 funud), llwytha hi ar wefan **CBBC me and my movie** i blant eraill ei gweld a'i gwerthfawrogi.

Am fwy o fanylion, cer draw i
bbc.co.uk/cbbc/meandmymovie

Joia a phob lwc!






golau camera *ffwrdd â ni!*

2	beth sydd ei angen	18	sut i wneud ffilm wedi ei hanimeiddio
4	sut i wneud drama	21	beth sydd ei angen
6	cynllunio dy stori	22	creu cymeriad
8	shots camera	24	creu stiwdio
12	taflen shot	26	sut i olygu dy ffilm
13	tips ffilmio		
14	saethu'r ffilm		
16	sut i wneud ffilm ddogfen		

beth sydd ei angen



Beth sydd ei angen

- camera neu gamera ffôn symudol
- cyfrifiadur (PC neu MAC)
- gwifren i gysylltu'r camera â'r cyfrifiadur
- batri/tapiau



Byddai'r rhain yn gwneud dy ffilm di'n well fyth

(ond does dim rhaid eu cael nhw!)

- treipod – stand i ddal y camera'n llonydd
- microffon/clustffon (headphones) – mae gan ambell i gamera soced i'r rhain
- goleuadau – lamp desg/tortsh i helpu i oleuo'r ffilm

Os nad ydy popeth gen ti...

Gofynna i dy deulu, ffrindiau neu athrawon os oes ganddyn nhw bethau i ti fenthyg.

sut i wneud drama

Ffilm gyda stori a chymeriadau dychmygol yw drama.
I wneud drama mae'n rhaid i ti ysgrifennu stori.



beth yw'r stori?

- cadwa'r stori'n syml – dim mwy na 2-3 cymeriad a 2-3 lleoliad
- cadwa'r stori'n fyr – dim mwy na 2 funud
- penderfyna sut fath o stori i'w gwneud e.e. **antur**, **arswyd**, **rhamantus** neu **ffantasi**
- meddylia am lefydd diddorol o dy gwmpas i ffilmio e.e. beth am seler y tŷ i wneud ffilm arswyd?
- oes gen ti, neu elli di fenthyg unrhyw wisgoedd e.e. gwisg dy arwr?
- pa bethau neu bropiau wyt ti angen i ddweud dy stori e.e. pêl neu fodrwy?
- paid byth â ffilmio tu allan i'r tŷ neu mewn lle cyhoeddus heb i riant neu warchodwr fod gyda thi

cynllunio dy stori

Math o stori?

Enw cymeriad 1 yn cael ei chwarae gan

Enw cymeriad 2 yn cael ei chwarae gan

Enw cymeriad 3 yn cael ei chwarae gan

Lleoliad 1 yn

Lleoliad 2 yn

Lleoliad 3 yn

Dydd neu nos yw hi?

Beth sy'n digwydd ar ddechrau'r ffilm?

Beth sy'n digwydd nesaf?

Beth sy'n digwydd ar y diwedd?


Pa wisgoedd sydd eu hangen?

Pa bropiau sydd eu hangen?



shots camera

Meddylia am yr hyn wyt ti'n gallu ei weld drwy'r camera i ddweud y stori. Pe byddai'r camera yn aros yn yr un lle drwy'r amser mi fyddai hyn yn mynd yn ddiflas dros ben. Dyma wahanol shots i ti gael eu trio:



tip i ti

Pan wyt ti'n gwyllo'r teledu, edrycha pryd mae'r shots gwahanol yn cael eu defnyddio.



Shot Hir

Fel arfer dyma yw'r shot cyntaf sy'n cael ei ddangos er mwyn i ti gael gweld pob dim a chreu'r olygfa

Shot Canolig

Mae'n dangos cymeriadau o'r bol i fyny. Shot defnyddiol i ffilmio pobl yn siarad

Shot Agos

Defnyddiol i ddangos manylion fel wyneb actor neu law yn gafael mewn gwn dŵr



Ongl Isel


Wedi ei ffilmio'n isel gyda'r camera yn pwyntio i fyny. Mae'n cael ei ddefnyddio er mwyn gwneud i rywun edrych yn fwy ac yn bwerus e.e. fel arwr mawr

Ongl Uchel

Wedi ei ffilmio'n uchel gyda'r camera yn pwyntio lawr. Mae'n cael ei ddefnyddio i wneud i rywun edrych yn llai. Mae'n ddefnyddiol wrth ffilmio'r un sydd yn cael ei ddychryn mewn ffilm arswyd!

Ongl Safbwynt

Ongl sy'n cael ei ffilmio yn agos at yr actor fel dy fod yn gweld yr un peth ag mae'r actor yn ei weld



Gogwydd (Tilt)

Mae'r camera'n symud
fyny a lawr. Ffordd dda
o gyflwyno cymeriad

Ongl Ar Draws

Mae'r camera yn symud
ar draws er mwyn dilyn
symudiadau e.e. rhywun
yn rhedeg

taflen shot

Meddylia beth fydd yr onglau a'r shots gorau i'w defnyddio i ddweud dy stori. Ysgrifenna restr yma.

	Math o shot	Disgrifiad
e.e.	Ongl Hir	Tu allan i adeilad i greu'r olygfa
1		
2		
3		
4		
5		
6		
7		
8		

ychydig o gyngor am ffilmio

gwna'n siŵr dy fod ti yn

- dal y camera'n llonydd
- sicrhau fod yr haul neu'r golau y tu ôl i'r camera - neu fe fydd dy ffilm di'n dywyll
- mynd â batris a thapiau sbâr efo ti
- dal y meicroffon yn ddigon agos er mwyn recordio'r sŵn yn iawn
- osgoi sŵn yn y cefndir, fel sŵn traffig
- sicrhau nad oes yna wifrau ar y llawr rhag ofn i ti gael damwain
- cael rhywun i fod wrth dy gefn di tra ti'n ffilmio rhag i ti neu rywun arall faglu!

Ac yn fwyaf pwysig

- Paid â gwneud unrhyw saethu peryg nag uchel
- Cofia gall dy gamera fod yn ddeniadol iawn i ladron
- Cadwa'r camera'n ofalus mewn lle saff

gwna'n siŵr dy fod ti ddim yn

- mynd ag ongl y camera mewn ag allan wrth ffilmio – bydd dy ffilm di'n edrych yn ofnadwy
- gwylio dy ffilm yn ôl yn ystod y ffilmio rhag ofn i ti ffilmio drosti!
- gadael i ddim nad sydd i fod yna, fel dy law di, lithro mewn i'r olygfa!
- ffilmio wrth ymyl dŵr neu mewn tywydd gwael

ffilmio

Os wyt ti eisiau, mi gei di ofyn i dy ffrindiau neu dy deulu fod yn rhan o'r criw ffilmio neu fe gei di wneud popeth ar ben dy hun!
Y prif swyddi ydy:

Cyfarwyddwr (C) – chdi ydy hwn!


Rhoi cyfarwyddiadau i bawb a gwneud yn siŵr fod y stori'n cael ei ffilmio'n gywir

Technegydd camera (TC)

Actorion

Technegydd sain – os wyt ti'n defnyddio clustffonau

Cynorthwy-ydd



Ymarfer

Cer i'r lleoliad ffilmio er mwyn cael ymarfer y golygfeydd.

Ffilmio

TC yn paratoi'r camera ar gyfer yr olygfa gyntaf

C yn gwneud yn siŵr fod yr actorion yn barod ac yn gweiddi: "DISTAWRWYDD AR Y SET"

TC yn gwasgu'r botwm 'record' ar y camera (bydd y llythrennau REC yn ymddangos yn goch ar y sgrin) ac yn gweiddi: "CAMERA'N TROI"


C yn gweiddi: "ACTION!" yna mae'r actorion yn cyfri i 3 yn eu pen (ddim yn uchel!) ac yn dechrau actio

Wedi i'r olygfa orffen mae **C** yn cyfri i 3 yn ei ben ac yn gweiddi: "CUT!"

TC yn pwyso botwm 'record' i stopio'r camera recordio

Bydd yn rhaid i ti ffilmio'r un olygfa 2 neu 3 gwaith er mwyn cael popeth yn iawn

Meddylia am ddefnyddio onglau gwahanol a fydd yn dy helpu i ddweud y stori e.e. ongl agos ar wyneb cymeriad



**ffwrdd
â ni!**

sut i wneud ffilm ddogfen

Mae dogfen yn dweud hanes pethau sydd wedi digwydd go iawn.

Gallet ti wneud dy ffilm ddogfen ar:

- ffrind neu aelod o'r teulu sydd â stori ddifyr
- pethau wyt ti'n eu hoffi neu ddim yn eu hoffi
- rhywbeth mae gen ti farn gref amdano e.e. ailgylchu

- gwyliau neu un o dy ddiddordebau

Dewisa leoliad ar gyfer ffilmio sy'n berthnasol i dy stori di.

Rho'r camera ar y treipod neu ar fwrdd a'i bwyntio atat ti, neu gofynna i ffrind dy ffilmio di. Edrych yn syth at y camera a chadwa dy ben yn llonydd.

Meddylia am bethau eraill
y medri di ddefnyddio i
ddweud dy stori, beth am:

Lluniau – e.e. lluniau
gwyliau (fe alli di
sganio'r rhain hefyd)

Digwyddiadau – e.e. gêm
bêl-droed

Cyfweliadau – gyda
ffrindiau, teulu ac
athrawon

A chofia am y tips ffilmio
(tudalen 13) a'r onglau
camera gwahanol (tudalen
8) y medri di eu defnyddio.

**Nawr rwyf ti'n
barod i fynd i
wneud dy ffilm
ddogfen!**



sut i wneud ffilm animeiddio

Mae animeiddiadau'n ffilmiau sy'n cynnwys darluniau neu fodelau.

Mewn ffilmiau sydd wedi eu hanimeiddio fel **Shaun y Ddafad** dydy'r lluniau ddim yn symud bron! Beth wyt ti'n ei weld ydy lot o luniau llonydd yn newid bob eiliad er mwyn twyllo dy ymennydd di i feddwl eu bod nhw'n symud. Mae'n gweithio yn union fel llyfr fflipio.


Ceisio wneud un wrth ddilyn y cyfarwyddiadau syml yma.

Torra'r lluniau i gyd allan a'u styffylu gyda'i gilydd gan roi'r rhifau yn eu trefn.

Nawr, tro'r tudalennau yn gyflym gan ddefnyddio dy fawd ac fe weli di'r lluniau yn symud!







4

3

2


1

8

7

6

5



12

11

10

9

beth wyt ti angen

Dyma beth sydd ei angen
arnat ti i wneud ffilm wedi ei
hanimeiddio:


- taflenni mawr o bapur
- glud a thâp gludiog
- clai lliwgar
- glanhawyr pibell (pipe cleaners) lliwgar
- darnau arian 2c
- camera digidol neu feddalwedd animeiddio (gofyn i dy deulu, ffrindiau neu'r ysgol am help)



creu cymeriad

Defnyddia'r clai er mwyn gwneud y cymeriadau – anghenfil, anifail - mae'r dewis fyny i ti:

- 1 Troella 3 glanhawr pibell gyda'i gilydd ar y tro i greu'r coesau, y breichiau a'r corff.
- 2 Gorchuddia'r glanhawyr pibell gyda chlai wedi ei rowlio allan.
- 3 Gad i ychydig o'r glanhawyr pibell wthio allan fel dy fod yn gallu glynu'r darnau i gyd gyda'i gilydd ar y diwedd.
- 4 Glynna ddarnau 2c i'r coesau fel na fydd yn disgyn drosodd!
- 5 Gorchuddia'r darnau arian gyda chlai fel eu bod yn edrych fel esgidiau.
- 6 Gwna ben a dwylo'r cymeriad o'r clai. Bydda'n greadigol!






© Aardman 2006

creu'r stiwdio


Dyma sut mae creu stiwdio ffilm bach dy hun:

- 1 Rho fwrdd yn erbyn wal wrth ymyl dy gyfrifiadur.
- 2 Tynna lun o'r cefndir wyt ti eisiau ar ddarn o bapur, e.e. awyr, coedwig neu gastell.
- 3 Glynar papur ar y wal drws nesa i'r bwrdd.
- 4 Glyn draed y cymeriad ar y bwrdd.
- 5 Gosoda'r camera o'i flaen a gwna'n siŵr na fydd yn symud.
- 6 Cau'r llenni a defnyddia ola' trydan gan y bydd golau'r haul yn newid.
- 7 Ti'n barod i gychwyn! Os oes gen ti feddalwedd animeiddio defnyddia hwnnw. Ond fe all di wneud ffilmiau animeiddio gwych hefo dim ond camera digidol a meddalwedd golygu syml.
- 8 Rho'r cymeriad yn ei le a chymryd llun. Symuda'r cymeriad ychydig bach a thynna lun arall. Gwna hyn nes wyt ti wedi cyrraedd diwedd dy stori.
- 9 Wedyn mi fydd gen ti lawer o luniau digidol ar y camera yn barod i'w rhoi ar y cyfrifiadur i ti gael eu golygu.



sut i olygu dy ffilm

Mae'n rhaid golygu'r ffilm er mwyn dod o hyd i'r shots gorau i ddweud dy stori a chael gwared â'r camgymeriadau. Dyma ychydig o bwyntiau i dy roi ar ben ffordd:




- gofynna i oedolyn gysylltu dy gamera i gyfrifiadur ac agor y meddalwedd golygu
- gwna'n siŵr fod y meddalwedd golygu ar y cyfrifiadur yn barod. Ar y PC, clicia ar y botwm 'Start' neu 'Cychwyn' yna clicia ar 'All Programs' neu 'Pob Rhaglen'; efallai bydd **Windows Movie Maker** yn y ffolder yma. Ar gyfer MACs efallai y bydd **iMovie** yn y ffolder gymwysiadau (**applications**)
- mae meddalwedd golygu ar y cyfrifiadur hefyd ar gael ar-lein - gofynna i dy deulu neu dy ffrindiau roi cymorth i ti (mae mwy o gyfarwyddiadau ar gael yn

y pecyn rhieni/athrawon. Dos i'r dudalen gefn am wybodaeth)

- dilyna gamau'r meddalwedd golygu er mwyn copïo dy glipiau o'r camera i'r cyfrifiadur; wedi i ti orffen dylet ti weld lluniau bychain o dy holl glipiau
- dilyna gyfarwyddiadau'r meddalwedd a'r tudalennau **cymorth** er mwyn golygu dy ffilm. A chofia arbed dy waith yn rheolaidd rhag colli'r cyfan!

Os wyt ti'n gwneud animeiddiad ac wedi cymryd lluniau digidol ar dy gamera, gelli ddilyn y cyfarwyddiadau blaenorol. Ond os wyt ti wedi defnyddio meddalwedd animeiddio yna mi fydd dy ddelweddau di ar y cyfrifiadur yn barod felly does ond rhaid i ti eu copïo nhw i'r meddalwedd golygu.




Dyma ychydig o dips i'w cofio wrth ddilyn cyfarwyddiadau'r meddalwedd golygu:

- **trefna dy stori** – llusga'r clipiau gorau i mewn i'r 'storyboard' neu'r 'clip viewer' ar y MAC a rho nhw yn y drefn gywir ar gyfer dy stori

- **torra nhw** – tynna'r camgymeriadau o bob clip. Bydd gofyn i ti rannu'r clip a chael gwared â'r darnau sydd ddim eu hangen bellach

- **toriad bras (rough cut)** – dewisa'r shots gorau yn y 'storyboard' neu'r 'clip viewer' ar y MAC ar gyfer dweud y stori e.e. saethiadau hir neu agos

- **toriad manwl (fine cut)** – gelli di wneud y shots ychydig yn hirach neu'n fyrrach er mwyn gwneud iddyn nhw edrych yn llyfn





DYNA NI

- gelli di **ddefnyddio effeithiau** arbennig er mwyn newid y ffordd mae dy ffilm di'n edrych, fel gwneud i'r clipiau symud yn gynt (gweler y ffolder effeithiau yn y meddalwedd golygu). Ond paid â'i gorwneud hi!
- **mae effeithiau** sain a **cherddoriaeth** yn gallu newid teimlad y ffilm e.e. cloc yn tician yn medru

bod yn arswydus. Cofia ddefnyddio cerddoriaeth heb hawlfraint arno yn unig – y ffordd orau i wneud hyn yw drwy recordio dy gerddoriaeth dy hun!

- ychwanega'r **teitlau** ar ddechrau'r ffilm (sef enw dy ffilm) a'r **cydnabyddiaethau (credits)** ar y diwedd i ddangos enwau'r criw ffilmio a'r actorion



me and my
movie

y diwedd

Ti 'di gorffen dy ffilm – llongyfarchiadau!

Mae pecynnau rhieni ac athrawon ar gael o
[www.downloads.bbc.co.uk/cbbc/
menandmymovie/parent_teachers.pdf](http://www.downloads.bbc.co.uk/cbbc/menandmymovie/parent_teachers.pdf)



Cyhoeddwyd gan BBC Learning
Ystafell 2531
BBC White City
201 Wood Lane
Llundain W12 7TS

Ysgrifennwyd gan a gyda diolch
i Mark Currie a Rachel Wang
o Chocolate Films

Dylunio: Red Stone design

Mae'r BBC yn cadw pob hawl i'r canllaw yma. Ni allwch gopïo unrhyw ran o'r canllaw yma heb ganiatâd ysgrifenedig. Er mwyn sicrhau caniatâd, ysgrifennwch at BBC Learning gan ddefnyddio'r cyfeiriad a roddir. Nid yw'r BBC yn gyfrifol am weithgaredd sefydliadau allanol na chynnwys gwefannau allanol.



me and my movie

bbc.co.uk/cbbc/meandmymovie

meandmymovie@bbc.co.uk